

Gwybodaeth ar gyfer ymweliadau â safleoedd Mawnogydd yn Sir Gaerfyrddin

Darllenwch y cyngor canlynol cyn ymweld ag unrhyw fawnogydd yn Sir Gaerfyrddin. Cyn ymweld gyda disgyblion rydym yn argymhell bod athrawon yn ymweld ymlaen llaw i ymgyfarwyddo â'r safle. Rydym wedi darparu'r wybodaeth ganlynol i wneud athrawon yn ymwybodol o'r risgiau ar y safle ac rydym yn darparu argymhellion i leihau'r risgiau hyn; fodd bynnag, cyfrifoldeb yr ysgol yw cwblhau ei hasesiad risg ei hun gan ystyried unrhyw risgiau ychwanegol neu ofynion ychwanegol sydd gan ddisgyblion.

Yn ogystal â'r uchod rydym yn argymhell bod grwpiau sy'n ymweld yn cynnwys o leiaf un person sydd wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf ac yn cario offer cymorth cyntaf drwy'r amser. Dylai ffonau symudol fod wedi'u gwefru'n llawn a dylai pob arweinydd grŵp fod yn ymwybodol o'r rhifau i'w ffonio mewn argyfwng. Nid oes toiledau ar y safle. Gobeithio y gwnewch chi fwynhau eich ymweliad.

Helpwch ni i ddiogelu'r safle!

Gwnewch ddisgyblion yn ymwybodol na ddylid pigo blodau gwyllt ac na ddylid mynd ag unrhyw beth oddi ar y safle.

| Perygl | Lefel y risg | Rhagofalon i'w rhoi ar waith i leihau lefel y risg |
|---|--------------|--|
| cerdded mewn ardal bellennig/ plant ar goll | Isel | Cynghorir athrawon i ymweld â'r safle ymlaen llaw i ymgyfarwyddo â'r safle a'r math o dir. Dylai athrawon ddefnyddio'r 'system gyfeillio' i sicrhau bod disgyblion wastad yn ymwybodol o'r rhai o'u cwmpas. Sicrhewch fod oedolyn ym mlaen ac yng nghefn y grŵp. Cyfrifwch y disgyblion yn rheolaidd a gwnewch ddisgyblion yn ymwybodol o'r cynlluniau os byddant yn mynd ar goll. |
| Tywydd garw | Isel | Os bydd tywydd garw (gan gynnwys gwyntoedd uchel) yn gwneud ymweliadau â'r safle'n anniogel, dylid eu gohirio neu eu canslo. Dylai ymwelwyr wisgo'r dillad priodol wrth ymweld â'r safle. Mae hynny'n cynnwys esgidiau cryfion. Dylai fod ganddynt ddillad ar gael hefyd sy'n briodol i amrywiaeth o fathau o dywydd. Mewn tywydd poeth dylid rhoi eli haul. Mae'r tywydd yn debygol o fod yn oerach ar y safle nag yn yr ysgol, felly dylai athrawon a disgyblion ddod â dillad ychwanegol. |
| Rhew/mwd/malurion ar draciau neu lethrau | Canolig | Rhew, mwd a dŵr ar y safle. Dylai athrawon sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o hyn ac osgoi ardaloedd gwlyb ar y safle. Dylai ymwelwyr wisgo esgidiau priodol, a chadw at y llwybrau sydd ar agor. |
| Ysbwriel, metel, gwydr a.y.b. | Isel | Gallai gwydr wedi torri, tameidiau o fetel ac ysbwriel fod yn bresennol ar y safle. Dylai disgyblion ac athrawon fod yn ymwybodol o hyn ac osgoi cyffwrdd ag ysbwriel neu ei godi. |

| | | |
|---|------|--|
| Plant yn dringo ar gerrig rhydd neu frigiadau | Isel | Efallai y bydd creigiau rhydd ar y safle a'r plant yn cael eu temtio i ddringo arnynt. Dylai athrawon hysbysu'r disgyblion ynghylch eu natur ansad a chynghorir yn gryf bod y plant yn osgoi dringo. Dylai unrhyw blant a gaiff eu dal yn dringo ar strwythurau o'r fath gael eu gorchymyn i roi'r gorau iddi a dringo i lawr (os yw'n ddiogel gwneud hynny) ar unwaith. |
|---|------|--|

| Perygl | Lefel y risg | Rhagofalon i'w rhoi ar waith i leihau lefel y risg |
|--------------------------------|--------------|--|
| Tir sy'n gorsiog ac o dan ddŵr | Canolig | Dylai athrawon gynghori'r disgyblion i fod yn ymwybodol y bydd y ddaear yn feddal ac yn gorsiog yn ystod yr ymweliad. Dylai disgyblion ac athrawon wisgo esgidiau priodol. Dylai athrawon ddefnyddio'r 'system cyfeillio' i sicrhau bod disgyblion wastad yn ymwybodol o'r rhai o'u cwmpas. Sicrhewch fod oedolyn gyda phob grŵp. Ni ddylai disgyblion fynd yn agos at ardaloedd sydd dan ormod o ddŵr a dylent gadw draw oddi wrth byllau ar y safle. |
| Da byw | Isel | Efallai y bydd defaid a cheffylau yn yr ardal. Efallai y bydd anifeiliaid fferm eraill yn bresennol hefyd, gan gynnwys cŵn defaid. Dylai athrawon annog disgyblion i beidio â tharfu ar y defaid, bwydo'r merlod mynydd na mynd ar gyfyl unrhyw anifeiliaid eraill. |
| Disgynfeydd o ardaloedd uchel | Isel | Dylid cynghori disgyblion i gadw draw oddi wrth ymylon clogwyni ac unrhyw ardaloedd peryglus eraill. |
| Glanweithdra/hydradiad | Isel | Ni fydd toiledau ar gael ar y safle. Dylid dod â chyfleusterau golchi dwylo sylfaenol a threfnu eu bod ar gael. |
| Llid ar y croen | Isel | Dylid gwneud disgyblion yn ymwybodol bod rhai planhigion yn gallu achosi llid ar y croen. Ni ddylai disgyblion gyffwrdd ag unrhyw blanhigion y maent yn ansicr yn eu cylch a dylid trefnu bod cyfleusterau golchi dwylo ar gael. |

| | | |
|-----------------------------|------|---|
| Peryglon eraill a adnabuwyd | Isel | <p>Dylai o leiaf un o'r staff goruchwyliol fod â chymhwyster cymorth cyntaf a dylai fod ag offer cymorth cyntaf yn ei feddiant ar yr ymweliad.</p> <p>Dylai fod gan yr athrawon ffôn symudol hefyd a dylent fod yn ymwybodol o'r rhifau ffôn i'w defnyddio mewn argyfwng.</p> <p>Dylech fod yn ymwybodol ei bod yn bosibl na fydd y safle'n hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn neu bobl llai abl. Dylai athrawon wirio hefyd bod y rhai y mae asthma arnynt yn dod â'r feddyginiaeth gywir gyda hwy gan fod rhai ardaloedd serth ar hyd y daith gerdded.</p> |
|-----------------------------|------|---|